**Cais am dystiolaeth:** Llythyr gan y Cadeirydd at randdeiliaid ynghylch digartrefedd Hydref 22

## Gwybodaeth am The Wallich

Mae The Wallich yn awyddus i greu Cymru lle mae pobl yn sefyll gyda'i gilydd i roi gobaith, cymorth ac atebion i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Fel elusen digartrefedd a chysgu ar y stryd fwyaf Cymru, mae'r Wallich yn gweithredu o dan dri amcan craidd: ***cael pobl oddi ar y strydoedd; cadw pobl oddi ar y strydoedd; a chreu cyfleoedd i bobl.***

Gan redeg dros 100 o wasanaethau amrywiol, ar draws 18 awdurdod lleol, mae The Wallich wedi gweithio gyda dros 5,000 o bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2022.

## Ein hymateb

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am y gwahoddiad i rannu ein barn am y sefyllfa bresennol o ran digartrefedd yng Nghymru, yn enwedig y defnydd presennol o lety dros dro a'r newid tuag at ailgartrefu cyflym.

### Y cyflenwad, addasrwydd ac ansawdd y llety dros dro sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gartrefu pobl sy'n ddigartref a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael iddynt.

Rydym yn dal yn bryderus iawn am y niferoedd uchel o bobl sydd mewn llety dros dro (TA) ledled Cymru (8,545 yn ôl y ffigurau swyddogol diweddaraf ar gyfer mis Awst 2022), ac mae'r niferoedd hyn yn parhau i godi bob mis. Mae mwy o bobl newydd yn ymgysylltu â'r system nag sy'n cael eu hailsefydlu'n llwyddiannus, sy'n arwain at fwy o bwysau ar staff ac adnoddau. Oherwydd prinder tai addas i bobl symud ymlaen iddynt, maent yn aros yn llawer rhy hir yn y TA; mewn rhai achosion rydym yn ymwybodol ohonynt, hyd at ddeuddeg mis mewn llety gwely a brecwast.

Tra eu bod mewn TA yn aros i gael ei hailgartrefu, credwn y gallai nifer sylweddol o bobl fethu â chael digon o gefnogaeth. Mae pobl sy'n ddigartref yn llawer mwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o fod wedi profi trawma ac felly bydd angen cymorth cofleidiol mwy dwys arnynt. Gallai hyn gynnwys rhoi sylw i anghenion iechyd meddwl neu gorfforol, defnyddio sylweddau, cyngor ariannol, neu reoli gwrthdaro teuluol a pherthynas yn chwalu. Mae The Wallich yn gallu darparu'r gefnogaeth hon yn gyflym i gleientiaid sy'n cael eu hatgyfeirio i'n prosiectau, ond o ystyried y nifer uchel o gyflwyniadau, rydym yn poeni na fydd rhai unigolion yn cael lefel gyfartal o wasanaeth.

Rydym hefyd yn bryderus iawn am ansawdd opsiynau TA.. Gwyddom fod awdurdodau lleol yn dibynnu'n drwm ar wely a brecwast, ac mewn rhai achosion maent unwaith eto'n defnyddio gwelyau gwersylla a sachau cysgu fel yr unig ddewis i gadw pobl dan do. Mae rhai awdurdodau lleol yn dal i ddefnyddio gwestai wedi'i addasu a drefnwyd ar anterth y pandemig, ac nid oes gan lawer o'r ystafelloedd hyn gyfleusterau coginio y tu hwnt i degellau a microdonnau, sy'n creu effaith o ddadsgilio, sy'n tanseilio gallu trigolion i fyw'n annibynnol gydag urddas.

Wrth gwrs, mae rhaglen ffoaduriaid Wcráin yn rhoi pwysau ychwanegol ar y sector TA. Yr ydym yn gwbl gefnogol i waith Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu noddfa i bobl Wcráin sy'n ffoi rhag rhyfel. Yn anffodus, fodd bynnag, rydym wedi nodi bod hyn yn arwain at fwy o gystadleuaeth am stoc dai gyfyngedig mewn rhai ardaloedd. Gall cymhlethdodau godi hefyd o gronfeydd ariannu gwahanol i gefnogi'r gwahanol garfannau hyn o bobl y mae angen tai a chymorth arnynt.

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cymorth a gomisiynir gan HSG yn gwneud gwaith rhagorol i gefnogi pobl mewn TA, ond maen nhw'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw mawr ac yn methu datrys profiadau digartrefedd yn llwyddiannus oherwydd prinder difrifol o dai parhaol priodol i symud pobl ymlaen iddynt.

## Yr effaith y mae byw mewn llety dros dro yn ei chael ar unigolion a theuluoedd.

Bydd unrhyw brofiad o ddigartrefedd yn brofiad trawmatig i'r person dan sylw, ond mae'n debygol mai dim ond gwaethygu'r trawma hwn y bydd aros yn hir mewn llety nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer meddiannaeth hirdymor. Yr effaith gyffredinol yw y bydd methu â darparu digon o gefnogaeth yn awr yn creu problemau ar gyfer y dyfodol. Problemau a allai ofyn am ymyriadau mwy dwys gan ystod eang o wasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae arosiadau hir mewn TA hefyd yn tanseilio gallu unigolion a theuluoedd i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae llawer o bobl yn gweithio neu'n awyddus i weithio, ond gall hyn gael effaith andwyol ar lefel y budd-dal tai y maent yn ei dderbyn, gan gyfyngu ar eu dewisiadau o ran tai er mwyn symud ymlaen. Yn rhyfeddol, yr ydym wedi cael achosion lle bu'n rhaid i'n gweithwyr cymorth gynghori cleientiaid rhag ymgymryd â gwaith hyd nes y caiff eu sefyllfa o ran tai ei datrys, sydd wrth gwrs yn gallu cymryd wythnosau neu fisoedd lawer.

Ar lefel ymarferol, nid oes gan lawer o eiddo TA gysylltiad rhyngrwyd, ond mae angen i breswylwyr fynd ar-lein er mwyn gwneud cais am eu budd-daliadau, sefydlu cyfrifon banc, cofrestru gyda meddygon teulu, a rheoli ystod eang o gyfrifoldebau eraill. Mae ein gweithwyr cymorth yn gwneud gwaith ardderchog yn cefnogi cleientiaid gyda'r holl waith gweinyddol hwn, ond unwaith eto mae'n tanseilio annibyniaeth y rheini a fyddai'n ddigon abl i reoli hyn eu hunain cyn belled eu bod yn gallu mynd ar-lein yn rhwydd.

## Effaith y galw parhaus am lety dros dro a gwasanaethau cymorth ar awdurdodau lleol, eu partneriaid a chymunedau.

Credwn fod nifer o awdurdodau lleol ar hyn o bryd wedi cyrraedd neu dros eu capasiti ar gyfer opsiynau llety sydd ar gael, a allai olygu y gallai unigolion newydd sy'n dangos eu bod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref gael eu gwrthod heb gynnig llety arall. Gallai hyn arwain at fwy a mwy o bobl yn cael eu gorfodi i gysgu ar y stryd, un o'r mathau mwyaf peryglus o ddigartrefedd, yn enwedig wrth i ni symud i'r gaeaf.

Mae TA sydd yn orlawn hefyd yn debygol o wthio mwy o bobl i'r strydoedd os ydynt yn teimlo ei fod yn rhy ddi-drefn neu fel arall yn methu â diwallu eu hanghenion. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n ceisio

cynnal ei ymwrthedd neu leihau ei ddefnydd o gyffuriau ei chael yn anodd byw'n agos at bobl eraill sy'n defnyddio sylweddau'n rheolaidd.

Gall eiddo TA mawr fel hosteli neu westyau wedi'u haddasu fod yn anodd i staff eu rheoli pan fyddant yn llawn, a gall maint a chymhlethdod anghenion preswylwyr arwain yn gyflym iawn at ddigwyddiadau a fydd yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, gan niweidio perthnasoedd cymdogaeth. Yn gyffredinol, bydd gormod o alw am lety yn arwain at ganlyniadau gwaeth (a chostau uwch) ar draws y gwasanaethau iechyd, plismona a chyfiawnder troseddol, a gwasanaethau cyhoeddus eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol.

## Opsiynau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a phriodol yn y tymor byr i ganolig er mwyn lleihau'r defnydd o lety dros dro.

Ar draws y sector tai a digartrefedd, rydym i gyd wedi ymrwymo i newid go iawn mewn dull gweithredu; gan symud i ffwrdd oddi wrth TA a'r model grisiau o 'barod am dai', a thuag at ailgartrefu cyflym a Tai yn Gyntaf yn lle hynny. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r newid radical hwn, rhaid i ni adeiladu llawer mwy o gapasiti ar draws y system. Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn mwy o TA gyda chymorth cofleidiol yn y tymor byr, yn ogystal ag adeiladu mwy o gartrefi newydd a throi adeiladau gwag, ac adeiladau wedi eu tanfeddiannu, yn dai addas.

Rydym yn nodi'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r sector adeiladu tai ar hyn o bryd, gan gynnwys prinder llafur, costau uwch a heriau logistaidd gyda chadwyni cyflenwi, a'r angen i ddatgarboneiddio. Ar ben yr heriau hyn, mae anawsterau sylweddol o ran annog adeiladwyr tai preifat a datblygwyr i adeiladu tai un ystafell wely fforddiadwy i ddiwallu anghenion pobl sengl mewn TA. Mewn rhai ardaloedd, yr unig opsiynau fforddiadwy ar gyfer symud ymlaen yw tai amlfeddiannaeth mawr a rennir yn y sector rhentu preifat, sydd yn aml o ansawdd isel ac nad ydynt yn briodol ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Heb ryw fath o ymyrraeth gadarnhaol gan y wladwriaeth, bydd adeiladwyr yn parhau i adeiladu dim ond cartrefi teuluol mwy, fflatiau moethus, neu lety dwysedd uchel i fyfyrwyr, yn hytrach na'r cartrefi llai proffidiol a fforddiadwy sy'n ateb y galw gwirioneddol yn y system.

Mae diffygion sylweddol yn y system gynllunio o'n safbwynt ni. O dan y system Adran 106 bresennol, nid oes gan awdurdodau lleol y grym i wrthod datblygiadau anaddas a mynnu buddsoddiad mewn cymunedau fforddiadwy a chynaliadwy.

Rydym hefyd yn profi rhai anawsterau wrth symud ein cleientiaid i dai parhaol, o ganlyniad i feini prawf cymhwyso uchel a orfodir gan landlordiaid, cymdeithasau preifat a chymdeithasau tai. Fel arfer rydym yn cefnogi cleientiaid sydd â'r anghenion cymorth uchaf a allai fod wedi cael eu gwrthod gan lawer o wasanaethau eraill, ac efallai eu bod wedi cael llawer o denantiaethau sydd wedi methu yn y gorffennol, neu broblemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ddefnyddio sylweddau.

Gallwn ei chael yn anodd argyhoeddi landlordiaid i dderbyn ein cleientiaid, gan eu bod yn tueddu i ddewis a dethol y darpar denantiaid mwy sefydlog. Mae hyn yn tanseilio egwyddorion y dulliau ailgartrefu cyflym neu Tai yn Gyntaf, sy'n nodi y dylai unrhyw un gael ei ystyried yn 'barod ar gyfer tenantiaeth', cyn belled â'u bod yn cael y lefel briodol o gefnogaeth. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth wedi deddfu i orfodi landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i dderbyn tenantiaid y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt, sy'n golygu na allant beidio cynnig unedau gwag nes y ceir cynnig gwell.

Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn ystyried rhywbeth tebyg, yn ogystal â gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ad-ddefnyddio unedau gwag yn gyflymach.

Ni ellir gwadu'r ffaith bod angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wario symiau sylweddol o arian, i liniaru'r pwysau ar wasanaethau TA (adeiladau a staff cymorth) ar adeg o argyfwng, ac i adeiladu ac ail-bwrpasu cartrefi mwy addas i bobl symud ymlaen iddynt.

**Cynnydd o ran gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel 2021-2026, ac yn benodol y symudiad tuag at ddull ailgartrefu cyflym.**

Ychydig o wybodaeth a gafwyd yn gyhoeddus am y cynnydd a wnaed wrth weithredu cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol bod llawer o waith yn mynd rhagddo y tu ôl i'r llenni, ac yr ydym wedi bod yn ymwneud â pheth ohono.

Y cam cyntaf ar y cynllun oedd i bob un o'r 22 awdurdod lleol ddatblygu cynllun pontio ailgartrefu cyflym, a hynny i fod yn ei le erbyn diwedd mis Medi. Adeg ysgrifennu'r adroddiad (dechrau Tachwedd 2022), dim ond pum awdurdod sydd wedi cyhoeddi eu cynllun ar eu gwefannau cyhoeddus.

Er ein bod yn deall bod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau sylweddol ar eu staff rheng flaen a'u hadnoddau cefn swyddfa, mae hyn yn achosi rhwystredigaeth, gan fod mwy a mwy o bobl yn defnyddio TA bob mis a llai o symud ymlaen yn llwyddiannus. Mae'n hanfodol bod pob awdurdod lleol yn cyhoeddi eu Cynlluniau Pontio ar gyfer Ailgartrefu Cyflym cyn gynted ag y bo modd, gan gynnwys asesiadau manwl o anghenion, er mwyn inni allu dechrau datblygu partneriaethau i ddarparu cymorth gwirioneddol aml-asiantaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Hoffem hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r 22 cynllun pontio mewn un lle ar eu gwefan, er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i'r gwahanol gynlluniau a fydd ar waith ledled Cymru a'u cymharu.

Rydym wedi bod yn ymwneud â rhywfaint o'r gwaith i ddatblygu gweithlu digartrefedd Cymru, gan gynnwys recriwtio a chadw staff, hyfforddiant a chydnabyddiaeth. Ar ôl cyfnod arbennig o heriol yn ddiweddar, gan gefnogi pobl drwy'r pandemig, mae staff yn cael eu llethu a'u digalonni mewn llawer o achosion. O ganlyniad, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cydnabod eu gwerth aruthrol ac yn gwneud ein gorau i'w cadw yn y sector. Defnyddio cyllid HSG i gynyddu cyflogau staff ddylai fod y flaenoriaeth ar gyfer gwella recriwtio a chadw staff ddylai, yn hytrach na chaniatáu i'r broses gomisiynu greu ras i'r gwaelod drwy gystadleuaeth rhwng darparwyr.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau Digartrefedd newydd, yn ogystal â threfniadau casglu data i gefnogi'r newid hwn. Yr ydym wedi dadlau ers tro byd dros symud oddi wrth fonitro canlyniadau hanesyddol, o ddyddiau'r rhaglen Cefnogi Pobl, i rywbeth sy'n cydnabod yn well fod llwyddiant yn edrych yn wahanol i wahanol bobl. I rai o'n cleientiaid, gallai llwyddiant olygu byw'n annibynnol a rheoli tenantiaeth, ond i eraill gallai olygu llety â chymorth tymor hir a lleihau eu defnydd o gyffuriau ac alcohol, er enghraifft.

Mae hefyd yn hollbwysig i'r fframwaith canlyniadau ddod yn fodel gwirioneddol ar gyfer Cymru gyfan: fel sefydliad sy'n gweithio ar draws 18 ardal awdurdod lleol wahanol, byddai'n well gennym weithio tuag at un set o ganlyniadau cyffredin, yn enwedig lle mae gennym gleientiaid sy'n symud rhwng ardaloedd sirol.

Rydym hefyd yn teimlo bod datblygu'r fframwaith newydd yn gyfle gwych i symud tuag at gasglu data sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o drawma. Rhaid sicrhau na fydd gofyn i unigolion ddatgelu eu manylion personol dro ar ôl tro yn peri trawma dro ar ôl tro, a rhaid i ni wella ein prosesau rhannu data fel mai dim ond unwaith y bydd angen i gleientiaid adrodd eu hanes.

Camau olaf cynllun Llywodraeth Cymru rydym am dynnu sylw atynt yw Camau Gweithredu 9 a 10; gwella gwasanaethau i bobl sydd â salwch meddwl a/neu niwroamrywiaethau, a'r rheini sydd â phroblemau defnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Rydyn ni'n credu bod y rhan fwyaf o'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi wedi dioddef salwch meddwl o ryw fath, ac mae rhwystrau penodol i wasanaethau iechyd meddwl yn bodoli yn achos y rheini sydd â'r cyflyrau mwyaf difrifol a chymhleth. Mewn arolwg diweddar o'n staff, dywedodd 90% o'r ymatebwyr eu bod wedi ei chael yn anodd neu'n amhosibl cael gafael ar y cymorth iechyd meddwl priodol i'w cleientiaid, a theimlai 76% nad oes llwybrau atgyfeirio priodol yn eu hardal ar gyfer cleientiaid ag anghenion iechyd meddwl difrifol. Mae 72% o'r ymatebwyr yn credu bod gan bobl sy'n ddigartref fynediad gwaeth at wasanaethau na'r boblogaeth gyffredinol, ac roedd 60% yn teimlo bod mynediad wedi gwaethygu ers dechrau'r pandemig.

Er mwyn i'r cynllun gweithredu fod yn llwyddiant a gwireddu ein huchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd, rhaid i ni adeiladu partneriaethau effeithiol ar draws y sector tai, byrddau iechyd (gan gynnwys yn benodol gwasanaethau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau) a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Os ystyrir mai cyfrifoldeb adrannau tai yn unig yw'r gwaith hwn, ni fydd yn llwyddiannus. Heb ymrwymiad gwirioneddol i beidio â beirniadu, datrys problemau, gweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan bawb sy'n gysylltiedig, ni fydd modelau fel ailgartrefu cyflym neu Tai yn Gyntaf yn llwyddo.